



Gwybodaeth am y Llawr Sglefrio

Llogi esgidiau sglefrio

Cyn i chi gamu ar yr iâ, bydd angen un eitem hanfodol arnoch – eich esgidiau sglefrio! Ewch i nôl eich esgidiau sglefrio o'r ddesg Llogi Esgidiau Sglefrio wrth ymyl y Llawr Sglefrio. Mae gennym dros 1,500 pâr o esgidiau sglefrio mewn gwahanol feintiau - o faint 6.5 i fabanod i faint 14 i oedolion. Cofiwch y bydd llawer o alw amdanynt yn ystod sesiynau prysur.

Loceri

Cadwch eich holl eiddo personol yn ddiogel tra byddwch yn sglefrio drwy ddefnyddio'n loceri. Mae'r rhain i'w cael ger y ddesg Llogi Esgidiau Sglefrio a'r tâl yw 50c am locer fechan a £1.00 am locer fawr.

Beth i'w wisgo ar y Llawr Sglefrio

Mae angen gwisgo dillad cyfforddus, cynnes a phâr o sanau cynnes pan fyddwch yn sglefrio. Mae'n eithaf oer ar yr iâ ond cyn gynted ag y byddwch yn dechrau gwibio o amgylch y llawr, byddwch yn siŵr o gynhesu. Byddai'n syniad da gwisgo haenau o ddillad er mwyn i chi fedru diosg ambell ddilledyn wrth i chi gynhesu. Gallai pâr o fenig fod yn ddefnyddiol hefyd.

Bwyd a diod

Ar ôl gorffen ar y Llawr Sglefrio, beth am ymlacio ac ailwefru'r batris gyda thamaid blasus neu ddiod boeth yn y bar byrbryd neu'r caffi. Mae'r ddau'n cynnig amrywiaeth eang o fwyd a diod. Mae peiriannau gwerthu hefyd ar gael o amgylch y ganolfan.

Diogelwch ar y Llawr Sglefrio



Gall y teulu cyfan fwynhau sglefrio ar yr iâ - ond cofiwch ddilyn yr awgrymiadau a ganlyn:

- Gwisgwch ddillad cyfforddus - heb fod yn rhy dynn nad yn rhy lac
- Mae menig yn ddefnyddiol ond nid yn angenrheidiol. Byddant yn cadw'ch dwylo'n gynnes ac yn eu diogelu os byddwch yn syrthio
- Gwisgwch sanau cynnes
- Peidiwch â gwisgo sgarff – gall fod yn beryglus i chi ac i eraill
- Clymwch eich esgidiau sglefrio hyd at eich ffêr i sicrhau eu bod mor gyfforddus â phosibl
- Cyn mentro ar yr iâ, cerddwch ychydig i gyfarwyddo â theimlad a phwysau'r esgidiau
- Peidiwch â bwyta, yfed na defnyddio'ch ffôn symudol tra byddwch yn sglefrio
- Ni chewch wisgo clustffonau ar y Llawr Sglefrio